

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil yr Economi Ddigidol

Cefndir

Ar 24 Tachwedd 2016, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Economi Ddigidol, sydd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Ar 29 Tachwedd 2016, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ('y Pwyllgor') i'w drafod. Wrth gyfeirio'r Memorandwm, pennodd y Pwyllgor Busnes 19 Ionawr 2017 fel y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad.

Mae dadl ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi ei threfnu yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Ionawr 2017, yn gofyn i'r Cynulliad gydsynio â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil (fel y'u hamlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol).

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Mae paragraffau 3 i 5 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 7 i 16 yn amlinellu'r darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad â nhw. Mae paragraff 17 yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y ffaith bod y darpariaethau yn cael eu gwneud drwy Fil y DU, yn hytrach na thrwy deddfwriaeth y Cynulliad.

Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad â nhw

Gofynnir i'r Cynulliad gydsynio â rhai darpariaethau ynghylch rhannu data gan awdurdodau lleol a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil pan y'i cyflwynwyd ac a gyflwynwyd drwy welliant yn ystod Cyfnod y Pwyllgor a'r Cyfnod Adrodd.

I grynhoi, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i awdurdodau cyhoeddus penodedig, gan gynnwys awdurdodau yng Nghymru, rannu data at ddibenion gwella gwasanaethau



cyhoeddus, yn amodol ar fodloni amodau penodol. Mae hyn yn cynnwys rhannu data i gefnogi targedu cynlluniau sy'n cynnig cymorth i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer rhannu data at ddibenion helpu unigolion i reoli eu dyledion i'r sector cyhoeddus a mynd i'r afael â thwyll yn erbyn sefydliadau yn y sector cyhoeddus, ac at ddibenion ymchwil.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

Mae paragraff 17 yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru ym Mil yr Economi Ddigidol, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Cynulliad. Mae'n dod i'r casgliad a ganlyn: "O ran gweithio mewn ffordd gydlynol yn hyn o beth, bernir mai deddfu drwy gyfrwng Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r ffordd orau o symud y mater hwn yn ei flaen".

Ystyriaeth a chasgliad y Pwyllgor

Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 15 Rhagfyr 2016. Nododd y Pwyllgor fod y cymalau y ceisir cydsyniad y Cynulliad â nhw yn ymwneud â rhannu gwybodaeth bersonol unigolion. Rydym ni o'r farn, pe byddai'r cymalau hyn yn cael eu trafod mewn Bil Cynulliad, y byddai'r mater o sicrhau cydymffurfiaeth ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn cael ei ystyried yn ofalus, yn enwedig yr hawl amodol i breifatrwydd ymysg materion eraill.

Er ein bod yn cydnabod bod y Bil yn cynnwys nifer o fesurau diogelu a gynlluniwyd i sicrhau bod data'n cael eu rhannu mewn modd diogel, gwnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn am sicrwydd ar y mater hwn. Mae copi o'n llythyr ac ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet ynghlwm fel Atodiad i'r adroddiad hwn.

Nodwn ymateb Ysgrifennydd y Cabinet ar y mater o rannu data mewn modd diogel. Nodwn resymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Cynulliad. Yn seiliedig ar hyn, nid oes gennym wrthwynebiad i dderbyn y Cynnig.

Rydym yn nodi bwriad Ysgrifennydd y Cabinet i osod Memorandwm diwygiedig i geisio cydsyniad y Cynulliad â chymal 65 o'r Bil yn sgil gwelliant ynghylch Awdurdod Cyllid Cymru yn datgelu gwybodaeth mewn ffordd nad oes modd adnabod unigolion. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r Memorandwm diwygiedig wedi'i osod. Nid ydym, felly, wedi cael cyfle i ystyried y diwygiadau.

